# COFNODION PWYLLGOR Y TY

**Dyddiad**: 24 Mehefin 2004

**Amser**: 9.00am

**Lleoliad**: Ystafell Gynadledda C, Adeilad y Cynulliad, Bae Caerdydd

**Aelodau'n bresennol:**

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Michael German, AC Democratiaid Rhyddfrydol
William Graham, AC Ceidwadwyr
Janice Gregory, AC Llafur
Helen Mary Jones, AC Plaid Cymru
Karen Sinclair, AC Llafur
Y Llywydd (hefyd yn bresennol)
David Melding, AC Ceidwadwyr (rhan o'r cyfarfod)

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty
John Bowley, Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
Gwyn Griffiths, Is-adran y Gyfraith
Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffïoedd
Nerys Evans, Pennaeth Rheoli Cyfleusterau
Sara Lloyd, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Catherine Morris, Ysgrifennydd Preifat i'r Dirprwy Lywydd
Debra Carter, Pennaeth yr Is-adran Rheoli Gwybodaeth (rhan o'r cyfarfod)

**Ymddiheuriadau**: Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Janet Davies, AC Plaid Cymru

Croesawodd y Cadeirydd Michael German a oedd yn dirprwyo ar ran Peter Black, a Helen Mary Jones a oedd yn dirprwyo ar ran Janet Davies.

## 1 <u>Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi</u>

1.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2004 eu cymeradwyo ar 28 Mai a'u cyhoeddi ar 24 Mehefin 2004.

1.2 **<u>Y Diweddaraf am Restr y 'Camau i'w Cymryd' HC(02)-04-04(p1)</u>**

<u>Ymweld ag Adeilad y Siambr Newydd</u>

Roedd yr aelodau wedi ymweld â safle Adeilad y Siambr Newydd ac wedi cael yr ymweliad yn un gwerthfawr.

<u>Contract Merlin</u>

Dywedodd Dianne Bevan y byddai amserlen y gwaith yn swyddfeydd etholaethau'r Aelodau yn cael ei dosbarthu cyn gynted ag y bydd yn barod. Roedd llawer o'r gwaith gosod llinellau eisoes wedi'i wneud. Cododd ddau Aelod bryderon ynghylch gwaith BT a nododd Dianne Bevan hynny er mwyn rhoi gwybod i'r trefnwyr.

Cytunwyd y byddai unrhyw Aelod sydd â ffôn symudol ar gontract gyda'r Cynulliad yn cael eu hysbysu am y trefniadau eraill sydd ar gael.

**Gweithredu: Gwen Parry**

<u>Caffael</u>

Cadarnhaodd Gwen Parry fod y canllaw caffael wedi'i ddiwygio mewn perthynas â chaffael nwyddau i'w gwerthu yn siop y Cynulliad.

<u>Deunydd Ysgrifennu Aelodau'r Cynulliad</u>

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod trefniadau ar y gweill i ddarparu stociau o ddeunydd ysgrifennu yn swyddfa Bae Colwyn. Gallai'r Aelodau hefyd gysylltu â Desg Gymorth yr Aelodau i drefnu bod deunyddiau ysgrifennu'n cael eu hanfon yn syth i swyddfeydd yr etholaethau.

<u>Slipiau Cyflog</u>

Cyfarfu Wayne Cowley â darparwyr y system gyflogres a chododd bryderon yr Aelodau o ran cyfrinachedd. Nododd darparwyr y system gyflogres nifer o faterion technegol a oedd yn eu hatal rhag newid y slipiau cyflog ar unwaith. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd cael papur yn ymchwilio i'r opsiynau amgen ar gyfer anfon deunyddiau i gartref neu swyddfa etholaeth yr aelodau er mwyn sicrhau cyfrinachedd.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

<u>Seminar ACAS</u>

Roedd Wayne Cowley wedi gofyn i'r Aelodau nodi a fyddent yn

debygol o fynd i'r seminar a nodi dyddiadau cyfleus. Ni chafwyd llawer o ymatebion. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr na fyddent yn mynd i'r seminar ac roedd dyddiadau cyfleus y rhai a oedd am fynd yn gwrthdaro â'i gilydd. Cytunodd yr Aelodau nad oedd angen cymryd camau pellach.

## 2 Camau Gweithredu sy'n Deillio o Gyfarfodydd yr Is-grwpiau

### 2.1 Argymhelliad Is-grwp y Celfyddydau HC(2)-04-04(p2)

Cyflwynwyd papur i'r pwyllgor yn awgrymu canllawiau ar gyfer lansio llyfrau yn Neuadd y Cynulliad a gwerthu llyfrau mewn achlysuron o'r fath. Roedd Is-grwp y Celfyddydau wedi cytuno ar y canllawiau cyn y cyfarfod.

Cytunodd yr Aelodau bod y canllawiau cyffredinol braidd yn gaeth, ond bod angen cadarnhad pellach o ran a oedd modd gwerthu unrhyw lyfr a ysgrifennwyd gan neu ynghylch Aelod o'r Cynulliad yn Neuadd y Cynulliad, beth bynnag fo'i destun. Awgrymodd y Llywydd y dylid gwahodd Peter Finch, Prif Weithredwr *Yr Academi Gymreig* i gyfarfod Is-grwp y Celfyddydau i roi ei sylwadau. Cyfeiriwyd y canllawiau yn ôl at Is-grwp y Celfyddydau i'w hailystyried yng ngoleuni sylwadau Pwyllgor y Ty.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth Is-grwp y Celfyddydau**

### 2.2 Cyfarfod yr Is-grwp Arlwyo 8 Mehefin 2004 HC(2)-04-04(p3)

Croesawodd y Cadeirydd David Melding, Cadeirydd yr Is-grwp Arlwyo, i'r cyfarfod. Dywedodd David Melding bod yr Is-grwp wedi bod yn ystyried yr opsiynau yn dilyn cwblhau adeilad newydd Siambr y Cynulliad. Gallai Ystafell De newydd yr Aelodau a'r caffi cyhoeddus effeithio ar y defnydd o'r lle fydd ar ôl yn yr adeilad presennol.

O ystyried nad oes cyfleusterau coginio yn yr adeilad newydd, byddai angen cadw'r cyfleusterau bwyd poeth presennol.

Nododd David Melding y byddai'r bont o'r adeilad newydd i'r bwyty hefyd yn effeithio ar drefn y bwyty a hwyrach ar drefn y seddi. Er mwyn parhau â gwasanaeth y bwyty, gall fod angen rhagor o le.

Cymeradwyodd yr Aelodau argymhelliad yr Is-grwp Arlwyo i swyddogion archwilio'r opsiwn o gadw Ystafell De'r Aelodau gyda'r nod o ddarparu lle bwyta preifat mwy o faint a mwy hyblyg yn lleoliad presennol yr ystafelloedd cynadledda ar y llawr cyntaf. Nodwyd y gallai'r lle ychwanegol gael ei ddefnyddio gan yr Aelodau hefyd i dderbyn ymwelwyr pwysig a chynnal cyfarfodydd anffurfiol ar adegau distaw. Fel hyn, byddai modd defnyddio'r ystafelloedd bwyta preifat fel ystafelloedd cyfarfod, gydag un ystafell ar gael fel

ystafell fwyta breifat os bydd angen. Byddai'r opsiwn o ddarparu cegin arbennig sy'n gweini bwyd poeth er mwyn ysgafnhau'r baich ar y gegin bresennol yn cael ei ystyried hefyd.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Nodwyd y cynigion gwreiddiol ar gyfer amseroedd agor a staffio Ystafell De'r Aelodau a'r caffi cyhoeddus. Byddai'r rhain, ynghyd â'r fwydlen arfaethedig, yn cael eu trafod faes o law.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth yr Is-grwp Arlwyo**

Dywedodd David Melding bod yr Is-grwp Arlwyo wedi cael cais gan Bwyllgor y Ty i ystyried nodi cymhellion yn y contract arlwyo y dylid cael gafael ar nwyddau am y pris gorau posibl. Cymeradwyodd yr Aelodau'r argymhelliad i gael cymhelliad yn y contract ar sail dyrannu unrhyw elw crynswth sydd y tu hwnt i'r ffigur targed y cytunwyd arno ar gyfer gwerthiant. Byddai'r cymhelliad yn cael ei adolygu'n ffurfiol bob chwe mis er mwyn sicrhau bod amcanion y Cynulliad yn cael eu bodloni a bod y system cymhellion yn gweithio'n effeithiol.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch anghysondeb y gwasanaeth yn gyffredinol o ran ansawdd rhai eitemau ar y fwydlen a'r prinder dewis i lysieuwyr. Gofynnodd David Melding i'r Aelodau anfon e-bost ato â'u holl sylwadau a phryderon yn ymwneud â'r gwasanaeth arlwyo. Byddai yn eu trafod â'r rheolwr arlwyo.

Nodwyd hefyd y byddai arolwg arlwyo ar ffurf holiadur cael ei ddosbarthu'n fuan. Anogodd David Melding yr Aelodau i lenwi'r holiadur. Byddai'r canlyniadau'n galluogi'r Is-grwp Arlwyo i fynd at y rheolwr arlwyo a'r rheolwyr rhanbarthol os bydd angen i dynnu eu sylw at y materion a godwyd.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod. Diolchodd y Cadeirydd i David Melding am fynd i gyfarfodydd yr Is-grwp.

2.3 <u>Cyfarfod y Grwp Cysylltu Offer a Chyfleusterau (EFLG) 14 Mai 2004 HC(2)-04-04(p4)</u>

Nododd y Cadeirydd nad oedd amseroedd y cyfrifiaduron yn cyd-fynd â'i gilydd. Dylai'r broblem fod wedi cael ei datrys beth amser yn ôl a mynegodd bryder bod hyn wedi cael ei godi eto. Gofynnwyd i'r swyddogion ymchwilio i'r mater.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Nodwyd bod tywelion glanhau wedi cael eu darparu gyda deunydd ysgrifennu i lanhau ffonau.

Gofynnodd yr Aelodau am bapur ar y dewisiadau ar gyfer gwella cynllun pensiwn rhanddeiliaid staff cymorth yr Aelodau.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

Dywedodd Wayne Cowley y byddai adolygiad y Corff Adolygu Cyflogau Uwch (CACU) yn cynnwys tystiolaeth gan staff cymorth yr Aelodau. Byddai CACU yn cychwyn casglu ffeithiau ar gyfer yr adolygiad yr wythnos ganlynol. Trefnwyd cyfweliadau ag amrywiaeth eang o Aelodau a chynrychiolwyr staff cymorth.

Cymeradwywyd y cofnodion.

2.4 Cyfarfod yr Is-grwp TGCh HC(2)-04-04(p05)

Cymeradwyodd yr Aelodau'r argymhelliad i dreialu system ffiltro e-byst ar y lefel uchaf bosibl am chwe mis er mwyn dileu pornograffi, firysau a SPAM.

**Gweithredu: Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad - TGCh**

Cymeradwyodd yr Aelodau'r argymhelliad i ddiffodd y system er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd bob mis rhwng 9.00am dydd Sadwrn a 9.00am dydd Sul, ar yr ail benwythnos ar ôl dydd Mawrth cyntaf bob mis (i gyd-fynd ag amserlen Microsoft ar gyfer rhyddhau deunydd diogelwch misol).

**Gweithredu: Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad - TGCh**

Cymeradwywyd y cofnodion.

## 3 Adroddiadau gan Glerc y Cynulliad

3.1 Adroddiad ar Gyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad (2005-06) HC(2)-04-04(p6)

Cyflwynodd Dianne Bevan adroddiad ar gyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn nodi'r cyllidebau dangosol yn fanwl. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn llythyr yn ddiweddar gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd yn cynnwys cais ffurfiol i Bwyllgor y Ty dalu rhywfaint o gostau dodrefnu adeilad newydd Siambr y Cynulliad o gyllideb Pwyllgor y Ty, mewn perthynas â'r celfyddydau, darlledu a dodrefn rhydd. Cafwyd trafodaethau rhwng y Dirprwy Lywydd a'r Gweinidog, lle gwnaed cais clir am gyfraniad at y costau TGCh. Yn dilyn hyn, cafwyd trafodaethau swyddogol. Cafwyd rhagor o drafodaethau'n ymwneud â chynnig Pwyllgor y Ty ar gyfer y gyllideb, a'i allu i ariannu'r costau dodrefnu. Byddai'r trafodaethau'n parhau.

Soniodd Dianne Bevan ei bod yn anodd rhoi amcangyfrif cywir o'r gofynion ar gyfer cyllideb 2005-06 a thu hwnt, am nad oedd costau rhedeg yr adeilad newydd wedi'u pennu na'u profi'n bendant.

Nododd yr aelodau bod y cynnydd uwch na chwyddiant yn y gyllideb yn adlewyrchu'r broses o recriwtio a chadw staff llawn GSC. Yn ystod y blynyddoedd blaenorol, ni fu'n rhaid cael lefel arbennig o ddarpariaeth er mwyn talu costau llawn y gwasanaeth oherwydd i'r gyllideb gael ei thanwario. Y prif reswm am hyn oedd bod GSC wedi'i chael yn anodd recriwtio a chadw staff. Roedd cynigion y gyllideb yn mynd ati i ddelio â'r angen i ariannu costau staff GSC yn 2005/06 yn briodol a'r ymrwymiadau a oedd yn debygol o wynebu GSC yn sgil yr adeilad newydd a phrosiectau eraill.

Nododd y Clerc bod y Pwyllgor yn y gorffennol wedi cytuno ar nifer o wasanaethau ychwanegol heb gael arian ychwanegol yn y gyllideb. Ee agor arddangosfa Glanfa'r Cynulliad ar benwythnosau, diogelwch 24 awr y dydd, sefydlu a rhedeg canolfan y Gogledd a thimau rhanbarthol gwybodaeth i'r cyhoedd. O ystyried staffio a phrosiectau presennol sy'n defnyddio arian Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn, byddai angen ei ystyried bellach yng nghylch cynllunio cyfredol y gyllideb.

Roedd yr Aelodau'n ymwybodol bod y trafodaethau'n parhau â'r Gweinidog Cyllid a gofynasant am gadarnhad pellach o'r gyllideb er mwyn nodi costau rhedeg adeilad newydd Siambr y Cynulliad a chostau rhedeg GSC. Byddai hwn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod arbennig o Bwyllgor y Ty ym mis Gorffennaf. Byddai'r gyllideb wedyn yn cael ei chyflwyno i'r Cyfarfod Llawn ddechrau mis Medi 2004.

**Gweithredu: John Bowley / yr Ysgrifenyddiaeth**

Gofynnwyd i swyddogion hefyd ymchwilio i'r amserlen ar gyfer caffael dodrefn ar gyfer adeilad newydd Siambr y Cynulliad, pe byddai Pwyllgor y Ty'n penderfynu ariannu'r elfen hon o'r costau dodrefnu.

**Gweithredu: Nerys Evans**

3.2 Cod drafft y Cadeirydd ar gyfer Aelodau Pwyllgor y Ty HC(2)-04-04(p7)

Derbyniodd yr aelodau'r Cod ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor ar gylch gorchwyl y Pwyllgor a chyfrifoldebau'r Aelodau. Byddai'r cod yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyfarfod Llawn.

**Gweithredu: Y Swyddfa Breifat**

3.3 Y Fformat Arfaethedig ar gyfer Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty 2003/04 HC(2)-04-04(p8)

Croesawodd yr aelodau fformat Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty 2003/04, a fyddai'n cael ei gyflwyno ar ffurf drafft i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod blynyddol a gynhelir yn gyhoeddus ym mis Hydref 2004.

**Gweithredu: Dianne Bevan**

3.4 Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, Ebrill 2004 HC(2)-04-04(p9)

Nododd yr Aelodau rai mân newidiadau i'r fformat arferol ar gyfer cynnwys dangosyddion perfformiad ychwanegol. Dywedodd y Clerc bod galw mawr am wasanaeth ymchwil yr Aelodau. Roedd y gwasanaeth ymchwil yn effeithlon wrth gwrdd â therfynau amser, ac roedd mwy a mwy o alw amdano ymhlith y Pwyllgorau.
Roedd yr Aelodau'n cytuno bod y cydweithio agosach rhwng staff yng Ngwasanaeth Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau yn golygu eu bod yn darparu gwasanaeth rhagorol.

Roedd perfformiad y Swyddfa Ffioedd wrth brosesu ceisiadau yn rhagorol. Codwyd rhai materion yn ymwneud â chysondeb a chywirdeb y cyngor a roddwyd i'r Aelodau, a byddai'n cael ei fonitro yn y dyfodol.

**Gweithredu - Wayne Cowley**

Soniodd y Clerc am y nifer gynyddol o ddigwyddiadau y mae timau rhanbarthol Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn eu mynychu. Nododd y Llywydd bod adroddiad diweddar Pwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin ar Foderneiddio'r Ty'r Cyffredin sef 'Connecting Parliament with the Public' (HC368 a gyhoeddwyd ar 16 Mehefin 2004) yn canmol y Gwasanaeth Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn y Cynulliad. Canmolodd holl staff y gangen am eu gwaith ac am ddarparu meincnod i gyrff deddfwriaethol eraill.

3.5 Trafodion y Cynulliad: Cynllun Wrth Gefn

Roedd yr Aelodau wedi gofyn i'r swyddogion lunio cynlluniau manwl wedi'u costio ar y ddarpariaeth ar gyfer cyfarfodydd pe na bai'r siambr bresennol ar gael. Byddai papur yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor pan fyddai'r holl wybodaeth ar gael.

**Gweithredu: Andrew George**

3.6 Cais am Gyllid ar gyfer Cyhoeddi Adroddiadau Monitro Datganoli yr Uned Gyfansoddiad 2005-2008 HC(2)-04-04(p10)

Cafwyd cais gan yr Uned Gyfansoddiad yng Ngholeg y Brifysgol, Llundain, am gyfraniad ariannol er mwyn parhau i gyhoeddi eu hadroddiadau monitro datganoli bob chwarter blwyddyn. Roedd y Llywydd o blaid gwneud cyfraniad. Serch hynny, penderfynodd y Pwyllgor na fyddai'n rhoi cyfraniad gan fod llawer iawn o ymchwil annibynnol yn cael ei gynnal yng Nghymru ar hyn o bryd.

## 4 Cyfleusterau'r Aelodau

4.1 Gweithgareddau Cysylltiadau Tramor ac Allanol HC(02)-04-04(p11)

Nododd yr Aelodau yr adolygiad o weithgareddau cysylltiadau tramor ac allanol ers 13 Mai 2004.

4.2 Hynt y gwaith o rannu'r Gwasanaeth Cyfieithu yn y Cynulliad Cenedlaethol HC(2)-04-04(p12)

Aeth y Cadeirydd ati i groesawu Debra Carter, Pennaeth yr Is-adran Rheoli Gwybodaeth yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, i'r cyfarfod. Roedd Gwen Parry a Debra Carter wedi bod yn trafod hynt y gwaith o rannu'r gwasanaeth cyfieithu er mwyn darparu gwasanaethau ar wahân i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Byddai'n ymarferol i weithio yn ôl amserlen lle byddai'r gwahanu'n digwydd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf ym mis Ebrill 2005. Byddai grwp llywio'n cael ei sefydlu i fwrw ymlaen â'r ailstrwythuro ac i asesu a rheoli'r risgiau a wynebir wrth geisio cadw at yr amserlen. Cytunodd yr aelodau ar hyn.

Roedd yr Aelodau o blaid yr egwyddor mai'r sefydliad a greodd y ddogfen a fyddai'n gyfrifol am gyfieithu papurau, yn hytrach na'r sefydliad a wnaeth ei chomisiynu.

Byddai'r gwasanaeth cyfieithu yn parhau i rannu arbenigedd a staff ac yn ymrwymedig i gynnal a monitro ansawdd holl waith cyfieithu'r Cynulliad. Byddai Pwyllgor y Ty yn cael papur arall ar hynt y gwaith hwn yn fuan.

**Gweithredu: Gwen Parry / Debra Carter**

4.3 Presenoldeb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ym Mrwsel

Dywedodd Karin Phillips bod hysbyseb wedi'i rhoi yn 'European Voice', papur rhanbarthol Brwsel, ar gyfer Dadansoddwr Polisi Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Rhoddwyd yr hysbyseb ar wefannau'r Cynulliad a Swyddfa'r Cabinet hefyd, a byddai'n cael eu rhoi ar wefan Senedd Ewrop os ydynt yn cytuno y

gellir gwneud hynny. Y dyddiad cau ar gyfer y swydd oedd 15 Gorffennaf. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd e-bostio copi o'r disgrifiad swydd atynt.

**Gweithredu: Karin Phillips**

Roedd y Prif Weinidog wedi cytuno mewn egwyddor, yn amodol ar lunio protocol ar egwyddorion ac elfennau ymarferol, y gallai Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ddefnyddio'r lle gwag yn Nhy Cymru. Byddai swyddogion o Wasanaeth Seneddol y Cynulliad yn cydweithio â swyddogion y Llywodraeth i lunio'r protocol hwnnw. Cymeradwyodd yr Aelodau y cynnig y dylid penodi staff gweinyddol i helpu'r dadansoddwr polisi. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Clerc drosglwyddo'r gyllideb ar gyfer y swyddi o'r Llinell Wariant ar gyfer Gweinyddu Cyffredinol i'r Llinell Wariant ar gyfer Costau Rhedeg Adrannol.

4.4 Treialu'r Cofnod Air-am-air o Drafodion y Pwyllgorau HC(2)-04-04(p13)

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd cyflwyno papur yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf yn sôn am yr amrywiadau posibl i'r cofnod cwbl ddwyieithog ac yn rhoi mwy o fanylion ar yr opsiynau'n ymwneud â darparu gwasanaeth mewnol ac allanol ar gyfer cymryd cofnod air-am-air o drafodion y pwyllgorau.

**Gweithredu: Gwen Parry**

4.5 Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE) - y diweddaraf HC(2)-04-04(p14)

Dywedodd y Cadeirydd bod Llywydd Nencini, Llywydd presennol CALRE, wedi cynnig darparu gwasanaethau a rhoi cyngor i'r Cynulliad yn ystod cyfnod ei lywyddiaeth dros CALRE.

Cymeradwyodd yr Aelodau ffigurau newydd is y gyllideb ar gyfer Llywyddiaeth CALRE a chynhadledd 2005 CALRE ar 23-25 Hydref. Dywedodd Gwen Parry y byddai Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn gallu ymdopi â gofynion staffio dyddiol y Llywyddiaeth. Roedd yr Aelodau'n cytuno bod angen trefnydd ar gyfer y brif gynhadledd.

**Gweithredu: Gwen Parry**

## 5 Adeiladau

5.1 Mân Waith Newydd HC(2)-04-04(p15)

System oeri ar gyfer y Neuadd

Cytunodd yr Aelodau i fwrw ymlaen â'r prosiect i ddarparu system oeri yn y Neuadd, a hynny ar sail y cais rhataf a gyflwynir. Nodwyd hynt y prosiectau eraill.

**Gweithredu: Nerys Evans**

5.2 Y Diweddaraf am Adeilad Newydd y Cynulliad HC(2)-04-04(p16)

Roedd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ceisio cymeradwyaeth Pwyllgor y Ty i ddefnyddio Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn y Pwyllgor i dalu rhywfaint o'r costau cyfalaf ar gyfer dodrefnu'r adeilad. Y brif reswm am hyn oedd y byddai'n hollbwysig i Bwyllgor y Ty wneud penderfyniadau allweddol ar ffynonellau'r cyfleusterau yr oedd am eu defnyddio yn yr adeilad newydd, ac felly dylai gael yr awdurdod a'r cyllidebau i'w alluogi i wneud penderfyniadau o'r fath.

Roedd y Pwyllgor yn bwriadu rhyddhau bron i £4 miliwn o'i Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yn amodol ar gael sicrwydd gan y Gweinidog Cyllid y byddai setliadau blynyddol cyllideb y Pwyllgor yn y dyfodol yn cyd-fynd â'i gyfrifoldebau ac yn ddigonol i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl. Byddai hyn yn cael ei adolygu yng nghyfarfod Pwyllgor y Ty ym mis Gorffennaf.

Nododd yr Aelodau yr adroddiad ar hynt y gwaith adeiladu. Roedd yr Aelodau'n pryderu y byddai Pierhead Street ar gau yn ystod y gwaith, a hynny heb ganiatáu mynediad i gerddwyr. Gofynnwyd i'r swyddogion archwilio'r opsiynau ar gyfer rhoi mynediad i'r cyhoedd yn ystod y gwaith adeiladu, a hynny ar sail Iechyd a Diogelwch a chan sicrhau eu bod yn amharu cyn lleied â phosibl ar yr amserlen waith ac yn cadw costau'n isel.

**Gweithredu: John Bowley**

Cytunodd yr Aelodau y dylid defnyddio bythau'r cyfryngau yn Adeilad newydd y Cynulliad ar gyfer darllediadau byw yn unig, heb amharu ar y trafodion, ac na ddylid eu defnyddio ar gyfer rhaglenni wedi'u recordio.

Roedd y Llywydd wedi anfon e-bost at Aelodau'r Cynulliad yn nodi'r enwau arfaethedig ar gyfer yr ystafelloedd yn adeilad y Siambr newydd. Gofynnwyd i'r Aelodau ymgynghori â'u grwpiau.

**Gweithredu: Aelodau**

## 6 Materion Ariannol

6.1 Adroddiad Cyllid HC(2)-04-04(p17)

Nododd yr Aelodau yr adroddiad. Soniodd y Cadeirydd am faint o arian oedd yn cael ei wario ar logi ceir yn y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu. Dywedodd Gwen Parry bod natur y gwaith yn yr uned gyfieithu a gwybodaeth i'r cyhoedd yn golygu bod angen teithio llawer. Hefyd, efallai nad yw rheolau'r Cynulliad ar ddefnyddio ceir ar gyfer dibenion gwaith yn effeithlon yn ariannol i rai swyddfeydd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion archwilio a fyddai modd gostwng y gwariant.

**Gweithredu: John Bowley**

6.2 <u>Cadw Cofnodion Gweinyddol Aelodau'r Cynulliad</u>

Dywedodd Wayne Cowley ei fod yn aros am atebion i'w lythyron at Gyllid y Wlad a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ynghylch ymholiadau'r Aelodau. Nodwyd mai dymuniad Aelodau'r Pwyllgor oedd cael hawl i wybod pwy sy'n gwneud ymholiadau ynghylch eu cofnodion o dan y darpariaethau mynediad at wybodaeth. Byddai Wayne Cowley'n codi'r mater.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

Cytunodd yr Aelodau y byddai system newydd ar gyfer cadw cofnodion yn ymwneud â Lwfansau ar gyfer Costau Ychwanegol am dair blynedd gan gynnwys y flwyddyn bresennol, yn cael ei rhoi ar waith pan fyddai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cytuno'n ffurfiol ar hyn.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

## 7 Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad

7.1 Roedd copïau o Gwestiynau Ysgrifenedig a Llafar y Cynulliad sydd wedi'u cyflwyno ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Ty wedi'u hanfon i'r Aelodau.

## 8 Unrhyw Fater Arall

8.1 Roedd y Llywydd yn awgrymu na ddylid caniatáu i ymwelwyr fynd i mewn i'r Siambr ar ôl 11.00am ar y diwrnodau pan gynhelir Cyfarfod Llawn, gan fod y darlledwyr yn cynnal profion ar yr offer yn y Siambr bryd hynny. Cymeradwyodd yr Aelodau'r cynnig hwn a chytuno na ddylid caniatáu i grwpiau mawr o ymwelwyr fynd i mewn i'r Siambr oni bai eu bod yn rhan o ymweliad sydd wedi'i drefnu.

**Gweithredu**: **Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

8.2 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael cais gan y Gweinidog dros

Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon i ddefnyddio maes parcio'r Cynulliad yn ystod penwythnos agoriadol Canolfan Mileniwm Cymru. Cytunodd yr Aelodau mewn egwyddor, yn amodol ar ystyriaethau'n ymwneud â diogelwch ac yswiriant a chan ofalu nad oedd yn gosod cynsail.

**Gweithredu**: **John Bowley**

8.3 Awgrymodd y Cadeirydd weithdrefn ar ddefnyddio car swyddogol y swyddfa breifat a oedd yn seiliedig ar weithdrefn y cabinet. Cymeradwyodd yr Aelodau y weithdrefn cyn belled â'u bod yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

**Gweithredu: Y Swyddfa Breifat**

8.4 Aeth y Cadeirydd ati i hysbysu'r Pwyllgor bod y landlord ym Mae Caerdydd wedi newid o ABP i Aviva. Byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r les faes o law.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Gorffennaf 2004
**Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty**